

ADRODDIAD BLYNYDDOL HINSAWDD A NATUR CYNGOR GWYNEDD 2025/26

- 1. Rhagair Aelod Cabinet Amgylchedd**
- 2. Mesur er mwyn cyrraedd y nod**
- 3. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2025/26**
- 4. Bwlch i Sero Net**
- 5. Adran 6 – Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth**
- 6. Adeiladau ac Ynni**
- 7. Symud a Thrafnidiaeth**
- 8. Gwastraff**
- 9. Llywodraethu**
- 10. Caffael**
- 11. Defnydd Tir**
- 12. Bioamrywiaeth**

1. Rhagair Aelod Cabinet Amgylchedd

[i ddilyn ar ôl cyfarfod Bwrdd Hinsawdd a Natur]

2. Mesur er mwyn cyrraedd y nod

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyflwyno cyfrifon allyriadau ac amsugno carbon Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill - 31 Mawrth 2025/26, ac hefyd yn rhoi diweddariad ar y gwaith a wnaethpwyd er mwyn gweithredu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor.

Drwy gymryd golwg gwrthrychol ar y gwaith a wnaethpwyd yn 2025/26, a chanlyniadau hynny yn nhermau allyriadau ac amsugno carbon, byddwn mewn gwell sefyllfa i fesur y ffordd orau ymlaen i gyrraedd ein nod i fod yn gyngor sero net ac ecolegol gadarnhaol.

3. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2025/26

Fel y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Cyngor Gwynedd yn cyfrifo allyriadau carbon gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, ac yna'n cyflwyno'r canlyniad i'r llywodraeth yn flynyddol.

Mae'r allyriadau carbon yn cael eu cymharu â blwyddyn waelodlin y Cyngor sef 2019/20 a blwyddyn adrodd flaenorol 2024/25, tra'n darparu esboniad am unrhyw wahaniaethau.

Drwy fesur y data allyriadau ac amsugno carbon yn flynyddol bydd gennym dystiolaeth i weld ble yr ydym ar y daith i fod yn gyngor sero net ac ecolegol gyfeillgar.

Allyriadau Carbon

Cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26 **HEB** gynnwys allyriadau caffael oedd 20,061,200 kgCO₂e. Mae hyn yn ostyngiad o 39% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 6% ers 2024/25.



Cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26 **GAN** gynnwys allyriadau caffael oedd 67,364,600 kgCO₂e. Mae hyn yn ostyngiad o 8% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 11% ers 2024/25.

Mae'r siart cyntaf isod yn dangos ein allyriadau carbon dros 8 pennawd, ac yn cynnwys allyriadau caffael (prynu nwyddau a gwasanaethau).

Mae'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael yn amherffaith gan ei fod yn seiliedig ar faint o arian yr ydym yn ei wario. Po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau.

Oherwydd y gall y data caffael greu darlun amherffaith mae'r ail siart yn cyflwyno data ar gyfer y 7 pennawd sy'n weddill ar ôl diystyru caffael.

Mae rhagor o wybodaeth am pam fod allyriadau yn codi neu ostwng i'w gael yn y penodau dilynol.



Amsugno Carbon

Mae faint o garbon deuocsid sy'n cael ei amsugno a'i storio gan asedau tir y Cyngor yn helpu i wrthbwyso cyfran o allyriadau carbon y Cyngor, ac i gau ychydig ar y bwlch i sero net.


Fodd bynnag, mae amcangyfrif amsugno carbon yn gywir yn heriol oherwydd y byddai angen lefel ddwfn iawn o fanylder am safleoedd, a hyd yma does dim arweiniad clir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar sut orau i gasglu data cywir.

Yn y cyfamser, rydym yn defnyddio data sy'n cael ei gasglu drwy fapiau OS a system rheoli asedau'r Cyngor. Cawsom broblem gyda defnyddio'r dechnoleg yma yn 2025/26 ac felly

rydym wedi defnyddio data 2024/25 gan ein bod yn hyderdus nad oes llawer o newid mewn defnydd tir na phrynu a gwerthu tir rhwng un flwyddyn a'r llall.

Mae rhagor o wybodaeth am beth mae'r Cyngor wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella ansawdd tiroedd a'u gallu i amsugno carbon i'w weld yn y penodau Defnydd Tir a Bioamrywiaeth.

Mae tiroedd sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd wedi amsugno 3,123,254 kgCO₂e o garbon yn ystod 2025/26.



4. Bwlch i Sero Net

Ein bwlch i sero net (**heb** gynnwys caffael) yn 2025/26 oedd 16,937,946 kgCO₂e. Mae hyn yn ostyngiad o 37% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 7% ers 2024/25.

Ein bwlch i sero net (**gan** gynnwys caffael) yn 2025/26 oedd 64,241,346 kgCO₂e. Mae hyn yn ostyngiad o 5% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 12% ers 2024/25.

Allyriadau
20,061,200
kgCO₂e




Amsugno
3,123,254
kgCO₂e

Bwlch i Sero Net
16,937,946 kgCO₂e

Yn syml iawn, y bwlch i sero net ydi faint o CO₂e sydd angen i ni ddileu er mwyn cyrraedd ein uchelgais i fod yn gyngor sero net ac ecolegol gadarnhaol. Mae'r bwlch yn cael ei gyfrifo drwy dynnu gwerth cyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugo allan o gyfanswm y carbon sy'n cael ei allyrru.

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, a'r adroddiad blynyddol hwn, yn dangos fod Cyngor Gwynedd yn ceisio cau'r bwlch o'r ddwy ochr yr un pryd, ac yn cydnabod pwysigrwydd cyfartal lleihau allyriadau a chynyddu lefelau amsugno.



5. Adran 6 – Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth

Nod Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd yw i fod yn gyngor sero net **ac ecolegol gadarnhaol**. Un llwybr at gyrraedd y nod hwnnw yw sicrhau ein bod yn gweithredu 'Adran 6'.

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth" ac i "hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau"

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, ystyried bioamrywiaeth a natur ym mhob agwedd ar eu gwaith, nid dim ond mewn prosiectau amgylcheddol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnwys 6 amcan ar gyfer adferiad natur yng Nghymru:

- **Amcan 1:** Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel
- **Amcan 2:** Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth
- **Amcan 3:** Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd
- **Amcan 4:** Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd
- **Amcan 5:** Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro
- **Amcan 6:** Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Er mwyn i Gyngor Gwynedd gwrdd a gofynion 'Adran 6' mae angen i ni brofi sut yr ydym wedi cyfrannu at bob un o'r 6 amcan uchod.

Ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad blynyddol hwn fe welwch ddisgrifiad o sut y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o'r 6 amcan uchod, sydd yn ei dro yn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dyma grynodeb o'r cysylltiad rhwng prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac Amcanion Adran 6:

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

	Amcan 1	Amcan 2	Amcan 3	Amcan 4	Amcan 5	Amcan 6
Adeiladau ac Ynni						
Symud a Thrafnidiaeth						
Gwastraff						
Llywodraethu						
Caffael						
Defnydd Tir						
Ecoleg						

6. Adeiladau ac Ynni

Mae'r allyriadau carbon o **adeiladau ac ynni** yn 2025/26 yn 45% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 23% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 10% o ostyngiad ers 2024/25.

Mae'r allyriadau carbon o **oleuadau stryd** yn 2025/26 yn 3% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 44% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 13% o ostyngiad ers 2024/25.

Adnewyddu adeiladau er mwyn arbed ynni

Mae 3 safle wedi derbyn gwelliannau i ffabrig adeiladau yn ystod 2025/26 sef cartref gofal Hafod Mawddach, Ysgol Llanbedrog, a chanolfan Byw'n Iach Penllyn (Y Bala). Gwnaed gwaith addasu sylweddol a hynny er mwyn peidio gwastraffu ynni fydd yn ei dro yn arbed arian a charbon. Mae'r gwaith yma'n angenrheidiol hefyd er mwyn paratoi'r safleoedd ar gyfer gosod pypiau gwres. Roedd hyn i gyd yn bosib oherwydd cyfraniad Grant Gwres Carbon Isel gan Lywodraeth Cymru. Rhagor o wybodaeth am Ysgol Llanbedrog isod.

Trydaneiddio systemau gwresogi

Ar ôl uwchraddio safleoedd Hafod Mawddach, Ysgol Llanbedrog a Byw'n Iach Penllyn roeddynt wedyn yn barod i ni osod pypiau gwres. Gan nad yw'n bosib cau'r safleoedd tra fod y gwaith yn cael ei wneud, mae'n rhaid bod yn amyneddgar wrth amserlenu'r gwaith, ond edrychwn ymlaen at weld canlyniadau diwedd y prosiect yn 2026.

Yn 2025/26 gosodwyd pypiau gwres hefyd mewn 3 safle newydd: Ysgol ein Harglwyddes (Bangor), Ysgol Felinwnda ac Uned Iaith Ysgol Maesincla (Caernarfon). Mae 11 safle wedi eu gwresogi gan bympiau gwres bellach.

Gosod paneli solar PV er mwyn arbed ynni a chostau

Gosodwyd paneli solar ar 6 safle newydd, ac fe ychwanegwyd rhagor o baneli ar 9 safle arall yn ystod 2025/26, gan gynhyrchu 973.25 kW o drydan glân yn flynyddol.

Daw hyn â chyfanswm safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd sy'n cynhyrchu trydan eu hunain i 64. Mae 50 o'r rhain yn ysgolion a 6 yn gartrefi gofal neu nyrsio.

Fe welwn y canlyniadau'n llawn yn ystod 2026/27 ond mae disgwyl i'r holl osodiadau PV arbed costau prynu ynni o £34,495 bob blwyddyn yn ogystal ag arbedion carbon blynyddol o 128.7tCO₂e.

Paneli Solar, a mwy...

Prosiect cyffrous iawn a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd gosod canopi solar ar Ysgol Hafod Lon ym Mhenrhyndeudraeth, fel rhan o system ynni clyfar lleol. Rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn isod.

Diolch i grant gan Ynni Cymru fe osodwyd systemau ynni clyfar lleol yng nghanolfannau hamdden Byw'n Iach Plas Silyn (Penygroes) a Plas Ffrancon (Bethesda). Mae paneli solar wedi eu gosod fydd yn pweru'r adeiladau, gyda gweddill y trydan yn cael ei storio mewn batris. Bydd y rheiny yn eu tro yn pweru hwb gwefru cymunedol.

Cynllun Goleuadau LED

Mae bylbiau LED yn defnyddio llawer iawn llai o drydan na bylbiau golau 'hir oes' eraill, ac felly mae budd ariannol mawr mewn arbed costau trydan, a budd arbedion carbon yn sgil hynny.

Gosodwyd oleuadau LED ar 8 safle yn ystod 2025/26, ac o'r data sy'n bodoli rydym wedi arbed o leiaf 29,513 kWh o drydan mewn blwyddyn sy'n arwain at arbed £6,492.86 o gostau blyneddol.

Goleuadau stryd, arwyddion, a thraffig

Fe ychwanegwyd 64 safle newydd at rwydwaith goleuadau stryd Gwynedd yn ystod 2025/26 (ee. stadau tai newydd, priffyrdd). Er hynny, rydym yn dal i weld gostyngiad defnydd ynni a 13% o ostyngiad mewn allyriadau carbon ers y flwyddyn flaenorol oherwydd ein bod yn parhau efo rhaglen adnewyddu goleuadau LED. Mae'r gostyngiad carbon ers blwyddyn waelodlin 2019/20 yn 44%.

Cyngor ynni ar dlodi tanwydd

Mae Tîm Ynni y Cyngor yn cefnogi trigolion gyda chostau ynni, a gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni yn y cartref a gwybodaeth am dariffau. Cynhaliwyd dros 100 o sesiynau galw heibio i roi cyngor a gwybodaeth i drigolion, a llawer o'r rhain mewn cydweithrediad â mudiadau cymunedol lleol.

Mae ECO4 yn gynllun cenedlaethol sy'n helpu aelwydydd incwm is i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan leihau biliau a charbon. Fe wnaeth 1,140 o gartrefi yng Ngwynedd dderbyn grant ECO4, a chynyddu eu sgôr EPC gan leihau biliau.

Yn anffodus bydd cynllun ECO4 yn dod i ben yn derfynol fis Rhagfyr 2026 ond mewn gwirionedd mae ceisiadau mae'r cynllun wedi arafu'n sylweddol ers Rhagfyr 2025. Yr ydym yn disgwyl cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ar beth sy'n dod nesaf o dan y cynllun Cartrefi Cynnes.

Cynllun Ynni Ardal Lleol (LAEP)

Comisiynodd Llywodraeth Cymru raglen i bob awdurdod lleol yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol er mwyn cyfrannu at y targedau cenedlaethol i gyrraedd sero net. Mabwysiadodd Cabinet Cyngor Gwynedd ein Cynllun Ynni Ardal Lleol fis Medi 2025, a'i fwriad ydi edrych ar y dulliau mwyaf effeithlon a chost effeithiol o ddadgarboneiddio system ynni gyflawn i Wynedd erbyn 2050.

Budd ychwanegol

Mae'r holl waith uchod wedi arwain at wariant gyda nifer o gontractwyr lleol, gyda 4 cwmni yn lleol i Wynedd. Nid yn unig y mae hyn wedi cadw'r bunt yn yr economi leol ond y mae hefyd wedi uwchraddio sgiliau'r gweithlu, gan gryfhau eu sefyllfa i'r dyfodol.

Stori llwyddiant - Ysgol Llanbedrog

Mae disgyblion a staff yr ysgol bellach yn yn dysgu a gweithio mewn awyrgylch llawer iawn fwy llwyddiannus. Mae'r prosiect gwres carbon isel hwn wedi adnewyddu'r system wresogi ynghyd ag ôl-osod gwelliannau i ffabrig adeilad Fictoraidd yr ysgol a'i estyniadau.

Dechreuodd y prosiect yn 2024 yn dilyn llwyddiant y Cyngor wrth sicrhau nifer o grantiau drwy Raglen Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru. Disgwylir l'r prosiect gwblhau ym mis Hydref 2026.

Mae'r gwaith wedi cynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer (*ASHP*), insiwleiddio mewnol ac allanol, ffenestri gwydr triphlyg, a system awyru mecanyddol sydd yn adennill gwres (*MVHR*). Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn wedi creu prosiect ôl-osod cynhwysfawr sy'n gwella perfformiad ynni'r adeilad, yn lleihau allyriadau carbon, ac yn darparu amgylchedd mwy cyfforddus a chynaliadwy i ddisgyblion a staff Ysgol Llanbedrog.

Stori llwyddiant - Ysgol Hafod Lon

Datblygwyd system ynni clyfar lleol newydd ar safle'r ysgol yn ystod 2025/26, ac mae'r trydan a gaiff ei gynhyrchu nid yn unig yn arbed costau ynni i'r ysgol, ond hefyd yn pweru pwynt gwefru ar gyfer bws mini trydan newydd sy'n cludo'r disgyblion i'r ysgol ac yn ôl adref.

Gosodwyd systemau solar 139kW ar y safle – cyfuniad o baneli solar ar y to ac 147 o baneli ar ganopi solar 120kW sydd yn cyflenwi trydan i adeilad yr ysgol, pwynt gwefru bws mini, ac i fatri 215kW.

Ar adegau brig o gynhyrchiant solar yn yr haf, amcangyfrifwyd fod yr ysgol yn 50% hunan-gynhaliol yn sgil y prosiect. Mae arbedion sylweddol yn sgil y prosiect yn nhermau mewnforio llai o ynni gan y grid, arbedion ariannol yn sgil biliau trydan llai (amcangyfrif o £19,941 y flwyddyn), ac arbedion carbon (amcangyfrif o 24tCO₂e y flwyddyn).



r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau
2. Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE
3. Datgarboneiddio cyflenwad ynni'r cyngor
4. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu
5. Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o PV i greu ynni adnewyddadwy

6. Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel *Passivhaus* wrth ddatblygu ein cynllun peilot tai arloesol
7. Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref
8. Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl.
9. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon
10. Gosod ffaniau awyru EC mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol
11. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad
12. Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni
13. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni
14. Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig
15. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisiau ynni a gwresogi
16. Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl
17. Gwella'r isadeiledd ynni yng Ngwynedd a gogledd Cymru er mwyn cynnal systemau ynni a thrafnidiaeth carbon isel

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Symud a Thrafnidiaeth

Mae'r allyriadau carbon o **fflyd** y cyngor yn 2025/26 yn 25% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 3% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 4% o ostyngiad ers 2024/25.

Mae'r allyriadau carbon o **gymudo staff** yn 2025/26 yn 20% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 30% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 6% o gynnydd ers 2024/25.

Mae'r allyriadau carbon o **deithio busnes** yn 2025/26 yn 6% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 37% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 4% o ostyngiad ers 2024/25.

Cynllun Fflyd Werdd

Ers mabwysiadu ein Cynllun Fflyd Werdd 2023-29 fis Ionawr 2023 ein polisi yw i brynu cerbydau trydan (EV) newydd ble mae'n bosib wrth i'r fflyd bresennol o geir petrol a disel ddod i ddiwedd eu hoes.

Mae'r Cyngor bellach yn berchen ar 82 car neu fan fechan trydan a 9 hybrid, a 6 offer trydan (*loading shovels*, peiriannau glanhau strydoedd), sef 40% o'r holl geir a faniau yr ydym yn berchen arnynt.



Rydym wedi llwyddo i arbed costau ynni ac allyriadau carbon yn ystod y flwyddyn gan i ni weld gostyngiad o 6.1% ar ddefnydd tanwydd (petrol a disel) rhwng 2024/25 a 2025/26.

Roedd hyn oherwydd trosglwyddo i fflyd drydan a thywydd ffafriol yn golygu llai o deithiau graeanu yn y gaeaf.

Mae 66% o holl allyriadau carbon ein fflyd yn deillio o'n cerbydau HGV, a hynny oherwydd ein bod yn parhau i ddefnyddio lorïau disel. Dylid cofio hefyd mai cerbydau casglu a danfon gwastraff, a cherbydau graeanu ffyrdd yw'r lorïau HGV yma, ac felly mae allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chasglu gwastraff a'i ddanfôn i gael ei brosesu yn cael ei gofnodi o dan allyriadu carbon 'fflyd' yn hytrach na 'gwastraff'.

Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan

Fflyd – erbyn diwedd 2025/26 roedd gan y Cyngor 58 pwynt gwefru mewn 12 lleoliad ar draws y sir er mwyn cadw ein fflyd o gerbydau trydan ar y ffordd.

Cyhoeddus - erbyn diwedd 2025/26 roedd y Cyngor wedi gosod 48 o bwyntiau gwefru mewn 12 lleoliad, ac mae 12 pwynt gwefru ychwanegol ar 4 o safleoedd y Cyngor drwy gydweithrediad gyda Thrafnidiaeth Cymru.

Stori lwyddiant – Cynllun Fflyd Werdd

Adroddwyd gan y Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru), fod gan Cyngor Gwynedd yr ail nifer fwyaf o gerbydau gwyrdd yn ei fflyd wrth gymharu gyda cynghorau gwledig eraill yng Nghymru.

Teithio llesol

Bangor - Gorffenwyd y gwaith o greu llwybr aml-ddefnydd ar gyfer beicwyr a cherddwyr rhwng Ysbyty Gwynedd a Threborth. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gosod croesfan newydd o flaen Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, Bangor

Mynytho – Crewyd llwybrau cerdded a chroesfannau ar gyfer Ysgol Foel Gron, ynghyd â gwell llwybr troed a chroesfan i gysylltu efo'r siop a'r swyddfa bost.

Mae nifer o brosiectau eraill a gychwynwyd yn 2025/26 sy'n cario mlaen i 2026/27 a 2027/28 -

- Llwybrau cerdded a beicio Chwilog i Afonwen, a Thywyn i Aberdyfi.
- Gwaith dichonoldeb a dylunio ar gyfres o gynlluniau eraill yn cynnwys llwybrau teithio: Llanberis-Caernarfon, Llanystumdwy-Cricieth, Bethel-Caernarfon.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am reoli a chynnal llwybr yr arfordir yn y sir. Fe wnaethom osod dyfeisiadau monitro defnydd llwybrau mewn 8 lleoliad ar hyd y llwybr yr arfordir, a'r 3 safle efo'r defnydd uchaf o'r 8 oedd – Dinas Dinlle, Llanbedrog, Penrhyn Bangor.

Stori lwyddiant – Lôn Las Ogwen

Mae'r gwaith o adeiladau pont newydd, Pont Sarnau, wedi creu llwybr fwy diogel a hygyrch i bawb sydd eisiau cerdded, beicio neu olwynio ar hyd y Lôn Las yn y rhan yma o Ddyffryn Ogwen, gan wella cysylltiad gyda llwybrau i gyrraedd Llyn Ogwen ac atyniad Zip World.

Mae'r gwelliannau'n cynnwys gosod tanffordd ar gyfer gwartheg fel nad oes angen cau'r llwybr yn achlysurol, fydd yn helpu ffermwyr a defnyddwyr y llwybr fel ei gilydd.

Stori lwyddiant – Teithio llesol ysgolion

Paratowyd Becyn Trafnidiaeth Ysgolion fel rhan o ymdrechion i wella diogelwch o amgylch ysgolion ac annog mwy o deithio cynaliadwy ledled y sir. Mae'r pecyn wedi ei ddatblygu i ddarparu gwybodaeth glir ac ymarferol i benaethiaid, staff ysgolion a rhieni, ynghyd ag adnoddau defnyddiol i hyrwyddo teithio llesol a lleihau tagfeydd traffig o amgylch ysgolion, fydd yn ei dro yn gwella ansawdd aer y mae ein plant yn ei anadlu.

Mae'r pecyn wedi ei ddatblygu gan Gyngor Gwynedd, ac wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth gan Drafnidiaeth Cymru.



Trafnidiaeth gyhoeddus

Yn ystod 2025/26 bu'r Cyngor yn peilota a monitro defnydd gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa, y G23 rhwng Y Bermo a Phorthmadog a Fflecsi yn ne Meirionnydd – gwelwyd gynnydd o 6.6% yn nifer y teithiau ar y flwyddyn flaenorol.

Ar draws gwasanaethau bysiau'r sir fe welwyd gynnydd o 14.7% mewn siwrneiai bysiau yn 2025/26 o'i gymharu a 2024/25.

Gostyngiad 4% mewn teithiau gan rai sy'n talu am docyn ond cynnydd 36% mewn teithiau gyda thocyn teithio rhad. Mae 60% o siwrneiai gyda thocyn talu a 40% gyda thocyn teithio rhad.

Cwblhawyd welliannau gwerth £500,000 i aros fannau bysiau mewn 3 lleoliad yn Arfon, 3 yn Nwyfor a 3 ym Meirionnydd.

Cymudo Staff

Mae'r data yr ydym wedi ei gasglu ar gyfer 2025/26 ychydig yn wahanol i flynyddoedd blaenorol gan ein bod wedi cynnal holiadur cymudo staff. Gan nad oedd y sampl a gasglwyd yn ddigon cynrychioladol, mae'r data terfynol yn gyfuniad o ddadansoddiad o'r holiadur ac o ddata yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021.

Teithio Busnes

Un newid arwyddocaol a wnaethpwyd yn ystod 2025/26 oedd newid ein trefniadau er mwyn mesur yr allyriadau carbon sy'n deillio o deithiau busnes yn llawer fwy cywir na'r blynyddoedd blaenorol.

Mae staff a chynghorwyr yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu geir preifat er mwyn gwneud taith angenrheidiol ar gyfer eu gwaith, ac rydym bellach yn gallu cysylltu â systemau data'r DVLA er mwyn derbyn mesur cywir o allyriadau carbon injian y cerbyd.

Mae'n newyddion calonogol felly fod yr allyriadau yn gostwng, yn enwedig gan fod nifer o deithiau yn cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus neu gerbydau trydan personol.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV
2. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor
3. Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor
4. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd

5. Lleihau teithio busnes
6. Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff
7. Annog teithio llesol ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon
8. Annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr
9. Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr
10. Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu ddefnyddio technoleg carbon isel

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Gwastraff

Mae'r allyriadau carbon o wastraff y cyngor yn 2025/26 yn 0% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 100% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn gyson â ffigwr 2024/25.

Fe newidiodd Llywodraeth Cymru y fethodoleg o gyfrifo allyriadau carbon gwastraff yn 2024/25. Bellach mae pob dull o drin gwastraff, ar wahân i dirlenwi, (ee. ailgylchu, hylosgiad, treulio anerobig ayb) yn rhoi ffigwr o sero i ni. Mae holl wastraff gweddilliol trigolion a busnesau Gwynedd yn cael ei drin ar safle Parc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy, ble mae'n cael ei losgi i gynhyrchu ynni, ac felly nid oes gwastraff yn mynd i dirlenwi.

Dylid cofio mai ffigwr ar gyfer **prosesu** gwastraff yw 0%, gan fod allyriadau carbon **casglu** gwastraff a'i **ddanfon** i gael ei brosesu yn cael eu cyfri o dan allyriadau carbon fflyd – gweler y bennod 'Symud a Thrafnidiaeth'.

Er bod y gyfran o'n gwastraff sy'n cael ei ailgylchu wedi codi o 55% i 65% dros y ddegawd ddiwethaf, mae'r cynnydd wedi stopio. Canran ailgylchu Gwynedd yn 2025/26 oedd 65.1% o'i gymharu â 65.3% yn 2024/25. Bydd yn dipyn o her felly i ni gwrdd â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio 70% o'n gwastraff.

Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu 2025-2030

Bu 2025/26 yn flwyddyn o ddatblygu, ac ymgynghori â chyhoedd Gwynedd, ar y strategaeth newydd. Cafodd ei mabwysiadu'n derfynol gan y Cabinet fis Gorffennaf 2026.

Mae'r strategaeth yn rhoi pwyslais ar gynyddu ailgylchu, gwella gwasanaethau, cynnal seilwaith presennol a buddsoddi mewn isadeiledd y dyfodol.

Newid arferion ailgylchu

Tra fod yn gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd yn mynd rhagddo, bu'r gwasanaeth ailgylchu yn treialu trefniadau newydd er mwyn cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a lleihau faint sy'n cael ei ddanfon i'w brosesu ym Mharc Adfer:

- treial sachau hesian wedi ei beilota mewn 3 cylchdaith yn ardal Arfon
- agor bagiau du yn y canolfannau ailgylchu er mwyn trio symud gwastraff fyddai wedi cael ei daflu a'i roi yn y sgipiau ailgylchu yn lle
- ymgyrch codi ymwybyddiaeth i drigolion

Glendid a gwastraff strydoedd

Mae'r Tîm Tacluso yn cynnig gwasanaeth glanhau a chynnal a chadw strydoedd, a clirio tipio anghyfreithlon. Dyma rai canlyniadau:

- 31% o ostyngiad mewn tipio anghyfreithlon rhwng 2024/25 a 2025/26

- Mae Cadw Cymru'n Daclus yn monitro lefelau glendid ar draws awdurdodau lleol, ac roedd nifer y safleoedd archwilwyd yng Ngwynedd yn 2025 a oedd yn cyrraedd y lefel derbyniol yn 64.5% o'i gymharu â 58.5% yng Nghymru gyfan.

Lleihau gwastraff bwyd

Mae Cronfa Cymorth Argyfwng Bwyd yn grant sy'n cefnogi prosiectau sy'n darparu cymorth bwyd i bobl. Yn ystod 2025/26 cefnogwyd 41 o grwpiau cymunedol drwy'r gronfa, gyda £150,300 yn cael ei ddylannu i gefnogi banciau bwyd, pantris bwyd, clybiau swper, a darpariaeth pecynnau bwyd.

Lleihau defnydd papur

Yn ystod 2025/26 fe gychwynodd cytundeb newydd ar gyfer argraffyddion ar draws safleoedd y Cyngor, a bydd y trefniadau newydd yn lleihau'n sylweddol ar ddefnydd papur ac yn arbed ynni.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu
2. Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio
3. Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd
4. Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu
5. Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu
6. Lleihau defnydd papur

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Llywodraethu

Nid oes allyriadau carbon yn deillio'n uniongyrchol o'r gwaith yn y maes Llywodraethu.

Gwella sgiliau a gwybodaeth

Rydym yn parhau i hyrwyddo ein e-fodiwl hyfforddiant Hinsawdd a Natur ymysg staff a chynghorwyr gan ei fod yn esbonio pam angen i'r Cyngor ymhel â gwaith yn y meysydd yma.

Gweler y bennod Bioamrywiaeth / Ecoleg am wybodaeth am hyfforddiant gwarchod coed.

Datblygu'r Gweithlu

Penodwyd 2 aelod newydd o staff ar gytundebau hyfforddai proffesiynol a phrentis yn ystod haf 2025:

- Hyfforddai Proffesiynol Ecolegydd Cynllunio
- Prentis Gradd Ynni

Adolygu Polisiâu

Bu 2025/26 yn flwyddyn o adolygu ac ail greu rhai o'r prif strategaethau sy'n arwain gwaith hinsawdd a natur y Cyngor. Fe wnaethom ymgynghori yn ystod y flwyddyn ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur a'r Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu, ac yna fe gawsant eu derbyn gan y Cabinet yn fuan yn 2026/27.

Cafodd Strategaeth Caffael 2026-2031 hefyd ei derbyn gan Gabinet y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ac mae hi'n rhoi arweiniad cadarn ar brynu'n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon.

Rhannu gwybodaeth er mwyn newid arferion

Rhaid cydnabod mai newid arferion sydd wedi eu gwreiddio'n ddwfn yw un o'r tasgau anoddaf ar ein taith i sero net. Er hynny, rydym wedi defnyddio ein cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth a straeon newyddion da am sut all trigolion a busnesau, yn ogystal â staff a chynghorwyr, leihau ein ôl troed carbon.

Buom yn ymgynghori'n eang â mudiadau cymunedol, sefydliadau cyhoeddus eraill, a thrigolion wrth ddatblygu'r Cynllun Ynni Ardal Lleol, ac mae gwaith wedi dechrau i drafod cydweithio ar gynlluniau ynni i'r dyfodol.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Aelodau etholedig a staff sydd:

- yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd
 - yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau
 - yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol
2. Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol
 3. Adolygu polisiau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad
 4. Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion
 5. Cefnogi cymunedau i gynllunio a darparu atebion lleol i anghenion lleol

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Caffael

Roedd 70% o allyriadau carbon y cyngor yn ystod 2025/26 yn deillio o'n prosesau caffael, sydd yn 16% o gynnydd ers 2019/20 ac yn 14% o ostyngiad ers 2024/25.

Mae'r dull o fesur allyriadau carbon caffael, neu'r gadwyn gyflenwi, yn seiliedig ar wariant yn unig. Yn syml, po fwyaf yw'r gwariant, po fwyaf yw'r allyriadau. Mae'r gost gynyddol o brynu nwyddau a gwasanaethau, a chynnydd chwyddiant, yn arwain felly at gynnydd mewn allyriadau carbon o dan y pennawd 'caffael'.

Oherwydd problemau'r fethodoleg yma rydym yn cyflwyno dwy set o ddata allyriadau – hefo, a heb, data caffael.

Gwella ein tystiolaeth

Er mwyn ceisio symud i ffwrdd oddi wrth y fethodoleg gwariant yn unig, buom yn cydweithio gyda'n cyflenwyr mewn 4 maes sydd â gwariant uchel er mwyn cael gwybodaeth llawer fwy cywir am eu allyriadau carbon – cytundebau bwyd i ysgolion, cytundebau cludiant ysgolion, offer technoleg gwybodaeth, argraffwyr.

Rhodddwyd yr wybodaeth i mewn i adran 'Tier 2' yn nhaenlen data carbon Llywodraeth Cymru, ac mae'r canlyniadau wedi dangos bod yr allyriadau wedi gostwng o'i gymharu â mesur ar sail gwariant.

Cefnogi cyflenwyr

Os ydym yn helpu ein cyflenwyr i ddadgarboneiddio eu ffordd o weithio, bydd hynny yn ein helpu ni i ddeall allyriadau carbon ein cadwyn gyflenwi yn well, yn ogystal â helpu'r hinsawdd!

Yn ystod 2025/26 bu'r Cyngor yn cydweithio â Busnes Cymru ac Adra i gynnal sesiynau cymorth i ddarparwyr y sector gofal a tai, a'u helpu i greu Cynlluniau Rheoli Carbon.

Mae swyddogion wedi cynnal digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwyr' i amlygu'r disgwyliadau wrth osod cytundeb caffael, ac mae gostwng allyriadau carbon yn un o'r rheiny.

Strategaeth Caffael 2026-2031

Mae'r strategaeth newydd gafodd ei derbyn gan y Cabinet fis Ionawr 2026 yn adnabod saith maes blaenoriaeth sydd yn cynnwys: Budd Lleol, Carbon sero, Gwerth am arian, Gwerth Cymdeithasol, Technoleg, Trefniadau llywodraethu a'r Gymraeg.

Er mwyn helpu i weithredu'r strategaeth newydd rydym wedi bod yn cefnogi swyddogion o fewn y Cyngor sy'n gosod cytundebau yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amcanion i brynu'n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl-troed carbon
2. Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 5: Gwellu ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at y ddau Amcan yma, gan y byddai derbyn a monitro Cynlluniau Rheoli Carbon yn rhoi tystiolaeth i ni o sut mae darparwyr am warchod bioamrywiaeth.

Defnydd Tir

Rydym yn defnyddio ffigwr wedi ei amcangyfrif ar hyn o bryd ar gyfer lefelau amsugno holl diroedd y cyngor (sy'n cynnwys safleoedd 'llwyd' sydd wedi eu hadeiladu) tra yr ydym yn gwirio cywirdeb y data.

Gan nad oes newidiadau mawr wedi bod rhwng 2025/26 a'r flwyddyn flaenorol rydym yn defnyddio data 2024/25 dros dro.

Mae holl diroedd y Cyngor yn amsugno gwerth 3,123,254 kgCO₂e net o garbon yn 2024/25 a 2025/26. Mae hyn 47% yn llai na blwyddyn waelodlin 2019/20.

Mae gwrthbwysu'r carbon sy'n cael ei amsugno yn erbyn ein allyriadau carbon yn cyfrannu at leihau'r bwlch i sero net.

Sefydlu a datblygu meithrinfeydd coed

Bu'n rhaid rhoi gofal ychwanegol i dair meithrinfa goed bresennol – ym Mhlas Glyn y Weddw Llanbedrog, Blaenau Ffestiniog a Thregarth – yn dilyn stormydd mawr 2025/26, ond bu'n bosib gwneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol.

Mae rhywogaethau newydd o goed eithnen ac afal cymreig sy'n unigryw yn enetig wedi eu darganfod a hadau wedi eu hel a'u ail blannu yn y meithrinfeydd.

Mae meithrinfa goed newydd wedi cychwyn cael ei sefydlu ym Mharc Glynllfion ger Caernarfon, mewn prosiect cyffrous newydd ar y cyd ag Adran Oedolion er mwyn cynnig cyfleoedd gwaith a lles i oedolion bregus.

Plannu coed trefol

Llwyddwyd i ddenu grant gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i redeg astudiaeth dichonoldeb i weld pa goed fydd orau i'w plannu ac ym mha leoliadau mewn ardaloedd trefol ac arfordirol. Dylai'r gwaith arwain at greu rhaglen blannu coed i helpu gyda risg llifogydd a chreu awyrgylch i helpu lles trigolion.

Gwarchod coedlannau

Drwy waith Partneriaeth Natur Gwynedd, bu'r Cyngor yn rhan o'r gwaith i wella mynediad i'r cyhoedd at goedlannau Parc Meurig ym Methesda a Coed Doctor yn Llanberis.

Planwyd 4 perllan gymunedol yng Nghricieth, Y Ffor, Carmel ac Abererch ar y cyd â mudiadau lleol.

Mesur carbon mewn coed

Dechreuodd y gwaith i ymchwilio pa fodel sydd yn siwtio ein coedlannau orau –mae drôn yn gallu mesur faint o bren a phren marw sydd mewn coedlan, ac rydym hefyd yn defnyddio systemau Ezytreev a systemau Forest Research.

Bydd gallu mesur yn gywir yn bwysig nid yn unig er mwyn deall gwerth carbon coed at bwrpas ein taith i sero net, ond hefyd er mwyn deall iechyd y coed er mwyn eu trin a'u gwarchod. Mae hyn yn hanfodol fel rhan o waith y tîm sy'n gyfrifol am Clwy'r Onnen.

Mesur carbon ein tiroedd

Buom yn cydweithio gyda DataMapWales a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gynllun cenedlaethol i weld os oedd yn bosib i fapio gwerth carbon tiroedd, ond yn anffodus doedd canlyniadau'r prosiect ddim yr hyn yr obeithwyd amdano. Rydym felly'n parhau i arbrofi gyda'r dulliau gorau o fesur a chadw cofnod.

Yn y cyfamser, rydym yn defnyddio data sy'n codi o fapiau OS, a methodoleg casglu data carbon Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
2. Adnabod cyfraniad tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
3. Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu
4. Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Cenedlaethol Cymru
5. Rheoli Clwy yr Onnen mewn coed a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed
6. Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur
7. Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at bob un o'r 6 amcan.

Bioamrywiaeth / Ecoleg

Cydweithio

Mae Partneriaeth Natur Gwynedd yn gasgliad o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol ac unigolion sydd i gyd yn cydweithio er mwyn gwarchod a gwella byd natur yn y sir. Er mai Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu'r bartneriaeth, mae hi'n llwyddo oherwydd y lefel o gydweithio llwyddiannus.

Yn ystod 2025/26 bu'r Bartneriaeth yn cydweithio â 5 cyngor tref a chymuned ar waith i wella safon a mynediad at fyd natur yn y cymunedau. Bu'r Cyngor hefyd yn cydweithio, drwy'r Bartneriaeth, gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i wella safon a diogelwch tir ger Abersoch.

Cefnogi a rhoi'r gair ar led

Mae gwybodaeth am waith Partneriaeth Natur Gwynedd, Pen Llŷn a'r Sarnau, AHNE Llŷn a thimau bioamrywiaeth y Cyngor oll yn cael eu rhannu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, yn ogystal ag yng nghylchgronau Llygad Llŷn ac O Dan y Don.

Mae gweithdai addysgol wedi eu cynnal ym Mhlas Glyn y Weddw a safleoedd Tirlenwi Gwyllt Llwyn Isaf.

Bu'r Cyngor a'r Bartneriaeth yn ymweld â sioeau a ffeiriau lleol er mwyn magu diddordeb trigolion mewn gwarchod byd natur.





Stori lwyddiant - 'Iddyn Nhw'

Un o lwyddiannau mwyaf 2025/26 oedd ein cynlluniau i blannu a gwarchod dolydd blodau gwyllt, yn enwedig ar ymylon ffyrdd. Gosodwyd targed gan y llywodraeth i greu rhagor o ddolydd ar draws Cymru, a bellach mae dros 25% o'r holl ddolydd hynny yng Ngwynedd.

Mae'r prosiect hwn wedi profi nad oes angen tiroedd enfawr er mwyn gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae llecynnau o dir ar ochr ffordd, sy'n aml yn cael ei anwybyddu neu esgeuluso, yn gallu bod yn hafan gwerthfawr i bryfetach a bywyd gwyllt.

Peidiwch a meddwl, am fod gwair a blodau yn cael eu gadael i 'dyfu'n wyllt' nad oes llawer o ofal o'r lleoliad. I'r gwrthwyneb! Mae'r llun yn dangos peiriant sy'n cael ei ddefnyddio i dorri'r gwair yn ofalus ar ddiwedd y tymor er mwyn casglu hadau i'w plannu yn y tymor nesaf.



Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol
2. Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer
3. Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod cynefinoedd neu blannu cynefinoedd newydd
4. Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur
5. Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur
6. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at bob un o'r 6 amcan.